

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr  
Tudful  
HYSBYSIAD PREIFATRWYDD  
CYNGHORWYR**

Lluniwyd yr hysbysiad hwn â Rheoliadau GDPR a deddfwriaeth berthnasol.

**Tîm Llywodraethu Gwybodaeth**

**Lisa Richards** – Swyddog Diogelu

**Sam Bishop** – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,  
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

Dyddiad Creu:	25 Mai 2019
Adran â Chyfrifoldeb:	Gwasanaethau Democraataidd
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Ann Taylor
Cyfeiriad:	CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn cynnwys gwybodaeth am sut mae Cynrychiolwyr Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu data personol preswylwyr sydd am gysylltu â Chynghorydd lleol am gyngor a chefnogaeth.

Mae Cynrychiolwyr Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut maen nhw'n cadw a defnyddio gwybodaeth bersonol y maen nhw'n ei chasglu. Mae'n ofynnol bod Cynghorwyr, o dan ddeddfwriaeth diogelu data, yn eich hysbysu chi o'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i sut mae Cynghorwyr yn defnyddio data personol pan maen nhw'n cynorthwyo'r cyhoedd ac yn ymateb i ymholiadau.

## **1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI**

Mae Cynrychiolwyr Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn rheolwyr data ac maen nhw'n gyfrifol am eich data personol.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i unrhyw berson naturiol y mae ei ddata yn cael ei ddefnyddio gan gynrychiolydd etholedig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sy'n cynnwys preswylwyr y fwrdeistref sirol gan gynnwys plant, oedolion a'r henoed, cyfansoddion y Cyngor sy'n berthnasol i unigolion sy'n preswylu yn y wardiau maen nhw'n gyfrifol amdanynt, cleientiaid a chwsmeriaid y Cyngor, aelodau o staff yn cynnwys uwch reolwyr.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r Swyddog drwy ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk

Ffôn: 01685 725000

## 2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH

Gall Cynghorwyr gasglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel a ganlyn:

Disgrifyddion personol yn cynnwys manylion fel enw, teitl, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost, eich statws priodasol neu berthynas a allai gynnwys manylion am eich partner neu briod.

Manylion teulu fel dyddiad geni, rhyw, uchder a thaldra eich plant.

Perthynas agosaf a gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng.

Mae'n bosibl bydd Cynghorwyr hefyd yn cadw ffotograffau neu glipiau fideo ohonoch os fyddwch yn mynychu un o'n grwpiau cymunedol.

Bydd Cynghorwyr ond yn cadw manylion am eich sefyllfa ariannol ar ôl i chi eu datgelu. Gallai hyn fod yn berthnasol i a ydych yn profi anawsterau ariannol ar hyn o bryd a allai gynnwys manylion benthyg, cymhwyster am gredyd, arferion gwario.

Gall gynghorwyr gael mynediad at a chadw manylion am gyflogau staff gan gynnwys y gyflogres a'ch manylion taliad diswyddo gwirfoddol/ ymddeoliad.

Gwybodaeth gyflogaeth y gallech eu darparu fel manylion am eich cyflog, lleoliad cyflogaeth neu weithle, teitl eich swydd, hanes gwaith neu oriau gwaith, ac unrhyw faterion sydd gennych mewn perthynas â'ch cyflogaeth yr ydych wedi ei rhannu gyda'ch Cyngorydd. Os oes gan aelod o staff y Cyngor broblem ynghylch ei gyflogaeth gallai hyn hefyd gael ei rannu gan y Cyngor gyda'r Cynghorwyr.

Nid yw Cynghorwyr yn gofyn am fanylion am eich data addysgiadol. Os byddwch yn eu hysbysu o'ch cyflawniadau addysgiadol mae'n bosibl y byddant yn cofnodi manylion am hanes eich addysg, hyfforddiant a datblygu.

Ceir categorïau arbennig o ddata personol mwy sensitif ble y mae'n ofynnol cael lefel uwch o ddiogelu. Rydym yn casglu, cadw a defnyddio'r categorïau arbennig canlynol o wybodaeth personol amdanoch chi a'ch teulu:

Gwybodaeth am eich hil neu ethnigrwydd, iaith, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol a safbwyntiau gwleidyddol.

Gan ddibynnu ar natur eich cais, mae'n bosibl y bydd angen i Gynghorwyr gael manylion o'ch ffeiliau gwasanaethau cymdeithasol a fydd yn cynnwys eu hymwneud â'ch teulu.

Gwybodaeth feddygol a allai gynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch iechyd

corfforol neu iechyd meddwl. Gellir hysbysu'r Cynghorwyr hefyd p'un ai yw aelod o staff yn feichiog neu'n absennol o'r gwaith yn sgil afiechyd.

Nid yw Cynghorwyr yn gofyn am ddata sy'n berthnasol i droseddau. Dim ond pan fyddwch wedi eu hysbysu o unrhyw euogfarn y caiff gwybodaeth fel hyn ei chadw neu os ydych chi'n gadael y carchar.

Gall Cynghorwyr hefyd edrych ar Gofrestr yr Etholwyr ac yn hynny o beth byddant yn cael gweld yr holl wybodaeth sy'n cael ei chadw oddi fewn i'r System Cofrestru Etholiadol.

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gasglu'r data hwn amdanoch yn adran 3 yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

### **3. SUT YDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA PERSONOL**

Bydd Cynghorwyr yn casglu'r data personol maen nhw'n ei defnyddio yn uniongyrchol oddi wrth breswylwyr y fwrdeistref. Mae'n bosibl y byddant hefyd yn cael gwybodaeth oddi wrth y Cyngor fel rhan o'u dyletswyddau swyddogol. Bydd Cynghorwyr yn cadw cofnodion electronig a phapur.

Dim ond pan fydd y ddeddfwriaeth diogelu data'n caniatáu hynny y byddwn yn defnyddio'ch data personol. Bydd hyn yn cynnwys darpariaethau a osodwyd o dan Reoliadau GDPR a ble y bo'n berthnasol Ddeddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

Pan fydd Cynghorwyr wedi ceisio cael eich caniatâd i gael mynediad at wybodaeth oddi fewn i adran o'r Cyngor.

Pan fo angen i Gynghorwyr gydymffurfio ag oblygiad cyfreithiol fel y rheini a ddarparwyd o dan y cyfreithiau canlynol:

Deddf Llywodraeth Leol  
Deddf Addysg 1996  
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014  
Deddf Plant 1989  
Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015  
Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data  
Deddf Diogelu Data 2018

Mae dyletswydd ar Gynghorwyr i atal a datgelu twyll, ac yn hynny o beth gallant hysbysu Adran Archwilio'r Cyngor os ydynt yn dyfod yn ymwybodol o unrhyw weithgaredd anghyfreithlon fel rhan o'u gwasanaethau i chi.

Os fydd Cynghorydd yn ystyried fod eich bywyd mewn perygl dybryd neu eich bod mewn risg difrifol o niwed bydd yn prosesu eich data personol i ddiogelu eich buddiant hanfodol.

Pan fo'i angen er budd y cyhoedd neu at ddibenion sy'n berthnasol i'w gweithredu cyhoeddus.

Gall Cynghorwyr hefyd brosesu eich data personol ble y bo'n angenrheidiol ar gyfer eu buddiannau cyfreithlon (neu rai trydydd parti) ac nid yw eich buddiannau na'ch hawliau sylfaenol chi'n trechu'r buddiannau hynny.

#### **4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL**

Gall Cynghorwyr rannu eich data personol gyda Gwasanaethau Democratig, yn benodol y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i chi, mae'n bosibl y byddant hefyd yn rhannu eich data gydag adrannau eraill y Cyngor a allai gynnwys:

Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cwynion  
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu  
TGCh  
Refeniw a Budd-daliadau  
Gwasanaethau Tai  
Gwasanaethau Addysg

Bydd Cynghorwyr yn rhannu eich data personol gyda'u Cyd-gynghorwyr er mwyn eich cynorthwyo chi i ateb eich pryderon.

Yn ychwanegol at hyn gall Cynghorwyr hefyd rannu eich data personol gyda sefydliadau allanol er mwyn eich cynorthwyo chi â materion personol, gallai'r sefydliadau hyn gynnwys:

Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol  
Heddlu De Cymru  
Gwasanaeth Tân  
Awdurdodau Lleol Cymdogol  
Ysgol Uwchradd Afon Taf  
Ysgol Uwchradd Penydre  
Ysgol Uwchradd Esgob Hedely  
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa  
Ysgol Uwchradd Gymunedol Abercannaid  
Ysgol Gynradd Gymunedol Bedlinog  
Ysgol Gynradd Caedraw  
Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa  
Ysgol Gynradd Dowlais  
Ysgol Gynradd Edwardsville  
Ysgol Gynradd Gellifaelog  
Ysgol Gynradd Goetre  
Ysgol Arbennig Greenfield  
Ysgol Gynradd Gwaunfarren  
Ysgol Gymunedol Heolgerrig  
Ysgol Gynradd Pantysgallog  
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Aloysius  
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Illtyd  
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair  
Ysgol Gynradd Trelewis

Ysgol Gynradd Troedyrhiw  
Ysgol Gymunedol Twynyrodyn  
Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen  
Ysgol Gynradd Coed y Dderwen  
Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd-y-Grug  
Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful  
Ysgol Y Graig Primary  
Asiantaethau Cymorth Tai  
Sefydliadau ac Elusennau Gwirfoddol  
ASau Lleol  
Rheoleiddwyr fel yr Ombwdsmon, Comisiynydd Gwybodaeth ayb

Ni fydd Cynghorwyr yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os byddwn ni, yna byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag sy'n bosibl. Os byddwn ni, yna gallwch ddisgwyl cyfradd debyg o ddiogelu mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

## **5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH**

Bydd Cynghorwyr ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol am mor hir ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y'i casglwyd ar eu cyfer, yn cynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifeg neu adrodd yn ôl.

Caiff y wybodaeth bersonol a gasglwyd yn unol â'r prosesu a fanylir yn yr hysbysiad hwn ei chadw am gyfnod o dair blynedd, neu 6 mis ar ôl i'ch cwyn gael ei therfynu. Mae hyn er mwyn caniatáu'ch Cynghorydd i adeiladu hanes achos ac i ddychwelyd at eich cofnodion pe byddai materion pellach yn codi.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan ([www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)).

## **6. SUT FYDDWN NI'N CADW EICH GWYBODAETH YN DDIOGEL**

Bydd Cynghorwyr yn gweithredu mesurau diogelwch priodol i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol neu ei defnyddio neu fod mynediad ati mewn modd heb ei awdurdodi, neu ei haddasu neu ddatgelu'n ddamweiniol. Yn ychwanegol, byddant yn cyfyngu ar y mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogwyr, asiantaethau, contractwyr a thrydydd partïon hynny sydd ag angen gwybod yn sgil busnes. Byddant ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn dilyn ein cyfarwyddiadau ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau mewn lle i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorcyfraith o ran diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o amheuaeth o dorcyfraith ble y bo'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

## **7. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL**

O dan amgylchiadau penodol, mae gennych yr hawl o dan gyfraith diogelu data mewn perthynas â'ch data personol i dderbyn copi o'r data personol rydym yn ei gadw amdanoch chi, mae manylion am yr hawliau hyn yn yr hysbysiad preifatrwydd llawn. Mae gennych hefyd yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk)

Ffôn: 0330 414 6421

## **8. MANYLION PELLACH**

Os ydych yn chwilio am ragor o wybodaeth am sut ydym ni'n prosesu eich data personol gan gynnwys data diogelwch, cadw data, hawliau unigol edrychwch ar ein polisi preifatrwydd cyflawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).